Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Clwb Carco y Castell**

**Ysgol y Castell**
**Crescent Road**
**Caerffili**
**CF83 1WH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

Date_Last_Inspection_Completed_Donot_Delete

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chlwb Carco y Castell

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Menter Iaith Sir Caerffili |
| Lleoedd cofrestredig | 50 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 23 Ebrill 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Mewnosod â llaw<br>Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae'r lleoliad yn cefnogi plant yn weithredol i wneud penderfyniadau am eu gweithgareddau, eu chwarae a'u dysgu. Mae'r plant yn ymgartrefu'n hawdd mewn amgylchedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac maent yn gyfforddus ac yn fodlon. Cânt gyfleoedd i ddatblygu ystod dda o sgiliau annibyniaeth drwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o brofiadau chwarae diddorol ac ysgogol. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau agos â'r staff a phlant eraill, sydd yn gwneud iddynt deimlo'n ddiogel.

Mae'r staff yn broffesiynol ac yn meddu ar gymwysterau da ac maent yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn cynllunio ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau yn seiliedig ar ddiddordebau'r plant. Mae systemau da ar waith i gynllunio a monitro cynnydd y plant.

Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli mewn ysgol gynradd ac mae'n groesawgar ac yn drefnus. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas, gan gwblhau asesiadau risg a gwiriadau dyddiol. Mae amrywiaeth dda o deganau, adnoddau a phrofiadau, dan do ac yn yr awyr agored, yn hyrwyddo datblygiad cyffredinol y plant.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol yn y gwasanaeth. Mae'r holl wybodaeth, polisïau a gweithdrefnau gofynnol ar waith. Mae'r staff yn derbyn goruchwyliaeth dda sy'n darparu cyfleoedd i fyfyrio a gwella eu harferion. Mae gweithio mewn partneriaeth gyda'r ysgol, yr awdurdod lleol a rhieni yn gryf.

## Llesiant

Mae'r plant yn gwneud penderfyniadau am sut maent yn treulio eu hamser ac o brofiad maent yn gwybod bod y staff yn gwrando ac yn cefnogi eu dewisiadau. Maent yn cymryd rhan mewn sesiynau 'map meddwl' i benderfynu ar y cynllunio ar gyfer y gweithgareddau yn seiliedig ar themâu sydd o ddiddordeb iddynt. Mae awgrymiadau'r plant i gyd-fynd â thestun anifeiliaid fferm yn cynnwys chwarae 'mochyn yn y canol', tynnu lluniau a lliwio anifeiliaid a chymryd rhan mewn sesiwn 'ioga cosmig' lle maent yn dynwared symudiadau anifeiliaid. Maent yn gyfarwydd â threfniadau dyddiol ac mae hyn yn rhoi ymdeimlad o sicrwydd i'w dyddiau. Mae'r plant yn deall nad oes disgwyl iddynt ymuno ag unrhyw un o'r gweithgareddau grŵp a gallant ddewis chwarae yn rhywle arall. Penderfynodd rhai plant symud tu mewn i chwarae pan oedd eraill yn chwarae yn yr ardal awyr agored. Mae'r plant yn teimlo'n hyderus ac yn datblygu hunan-barch da, gan ddangos bodlonrwydd ar yr amrediad eang o adnoddau dysgu a chwarae sydd ar gael iddynt.

Mae'r plant yn hapus a diogel ac yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn dechrau meithrin cyfeillgarwch yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Mae pob plentyn yn mynychu'r ysgol lle mae'r gwasanaeth wedi'i leoli ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i gryfhau eu cyfeillgarwch a chwrdd â phlant o wahanol ddosbarthiadau. Mae ganddynt deimladau amlwg o hoffter gyda'r staff, sy'n deall eu hanghenion ac yn darparu gofal cyson. Maent yn hyderus wrth fynd at y staff am gysur a sicrwydd yn ôl yr angen. Roedd un plentyn newydd a oedd wedi cynhyrfu yn cael sylw agos gan aelod o staff a arhosodd gyda'r plentyn i roi cysur a chymorth.

Mae'r plant yn dysgu sut i reoli eu hymddygiad ac yn datblygu dealltwriaeth o deimladau pobl eraill. Gofynnwyd i un plentyn a gymerodd degan oddi wrth blentyn arall i ymddiheuro a chydnabod y gofid a achoswyd gan y weithred hon. Cafodd y plentyn gefnogaeth i ddeall ei gweithredoedd, a oedd yn ei dro yn caniatáu i'r chwarae barhau.

Mae gan y plant gyfleoedd da iawn ar gyfer chwarae dychmygol ac maent yn mwynhau rhannu ystod o weithgareddau chwarae rôl. Roedd nifer o blant yn mwynhau chwarae gyda'u doliau a 'rhoi'r babi i'r gwely’. Mae'r plant yn cael ymarfer corff rheolaidd ac awyr iach ac yn gwerthfawrogi'n fawr yr amser y maent yn ei dreulio yn chwarae'n egnïol yn yr awyr agored. Mae gweithgareddau chwarae anniben gyda thywod, paent a dŵr yn rhoi'r cyfle i'r plant fod yn greadigol a chael hwyl. Mae rhai plant yn canu'n ddigymell gan ddangos boddhad o fewn y lleoliad.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu sgiliau annibyniaeth sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Maent yn golchi eu dwylo yn ôl yr angen ac yn deall y drefn o dacluso wrth newid gweithgareddau. Maent yn aros am amserydd wedi'i osod ymlaen llaw ar sgrîn cyfrifiadur ac yn mwynhau'r her o roi’r 'r holl offer i gadw mewn da bryd. Maent yn mwynhau'r ymdeimlad o gyflawniad sy'n perthyn i gwblhau'r tasgau hyn.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r staff yn dilyn systemau effeithiol i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae gweithdrefnau diogelu trylwyr ar waith ac yn hyrwyddo llesiant y plant. Mae'r staff yn deall eu rolau a chyfrifoldebau, ac maent yn deall y prosesau i'w dilyn wrth ddelio ag unrhyw bryderon. Mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant diogelu rheolaidd ac yn cael yr wybodaeth berthnasol ddiweddaraf. Mae'r staff yn cadw cofnod o anafiadau presennol y plant ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u llofnodi gan rieni. Mae'r staff yn dilyn yr ymarferion tân rheolaidd a drefnir gan yr ysgol ac yn sicrhau bod plant yn gwybod sut i adael yr adeilad yn ddiogel. Nid ydynt yn trefnu eu hymarferion tân eu hunain yn ôl y gofyn. Mae'r staff yn cofnodi pob damwain a digwyddiad a chaiff y rhain eu llofnodi gan y rhieni a'r staff. Mae'r unigolyn â gofal yn gwneud gwaith monitro cyfyngedig o'r cofnodion hyn a all ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol i asesu os oes angen unrhyw newid. Mae'r staff yn cadw cofnodion a gwybodaeth dda yn ymwneud ag alergeddau neu gyflyrau meddygol penodol plant. Mae'r wybodaeth hon yn glir ac yn hygyrch ac mae rhieni'n sicrhau bod y gwasanaeth yn cael yr holl ddiweddariadau neu newidiadau. Mae ffurflenni meddyginiaeth yn cofnodi pob dos ac mae ganddynt wybodaeth lawn cyn iddynt gael eu rhoi. Mae'r holl staff yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig ac yn hyderus i ymdrin â mân anafiadau.

Mae'r staff yn rhoi sylw i anghenion y plant ac yn rhyngweithio â'r plant mewn modd cymwynasgar a thyner. Maent yn ystyrlon o anghenion unigol y plant ac mae ganddynt ddisgwyliadau realistig ohonynt. Maent yn gyson yn eu hagwedd ac yn ystyriol o oedran a chamau datblygu'r plant wrth fynd ati i reoli materion yn ymwneud ag ymddygiad. Mae'r staff yn defnyddio llais meddal i dynnu sylw plant sy'n rhwystredig neu'n ofidus, ac yn eu canmol am eu hymdrechion. Mae'r staff yn esiamplau da cadarnhaol ac yn rheoli pob un o'u rhyngweithiadau'n briodol. Mae'r staff yn ofalus gyda theimladau'r plant ac yn eu trin fel unigolion, gan eu hannog a'u cefnogi. Maent yn darparu ffiniau clir ac yn eu hatgoffa i fod yn ofalus ac i feddwl am deimladau eraill. Cafodd un plentyn nad oedd yn rhannu'r pram doliau ei atgoffa'n dyner o'r angen i rannu ac roedd yn hapus i gydweithio. Mae'r staff yn eistedd gyda'r plant yn ystod amser byrbryd ac yn ystod gweithgareddau, ac yn sgwrsio â nhw. Mae hyn yn datblygu ymddiriedaeth a chydberthnasau, ac yn hybu hunanhyder y plant.

Mae gweithwyr allweddol yn gweithio gyda phlant unigol ac yn cyfeirio at grwpiau 'teulu'. Maent yn gyfrifol am sicrhau bod holl wybodaeth y plant yn gyfredol a gwnânt arsylwadau i fonitro eu cynnydd a'u datblygiad. Mae'r staff yn hyrwyddo trafodaeth agored ac yn gwerthfawrogi syniadau plant am newid gweithgareddau ac adnoddau. Cofnodir yr holl wybodaeth mewn llyfrau unigol ac mae'n cynnwys enghreifftiau o'u gwaith a'u cyflawniadau.

## Yr Amgylchedd

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth systemau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'r lleoliad wedi'i leoli yn Ysgol Gynradd y Castell yng Nghaerffili ac mae'n defnyddio adeiladau dros dro tra bod eu cyfleusterau ar wahân yn cael eu hadnewyddu a'u gwella. Ar hyn o bryd mae'r clwb cofleidiol a brecwast yn defnyddio un ystafell fawr ac ardal chwarae awyr agored. Mae'r plant yn rhannu cyfleusterau toiled gyda'r ysgol. Mae'r clwb ar ôl ysgol yn cael defnyddio neuadd yr ysgol a'r iard allanol. Mae'r amgylchedd yn groesawgar, yn hygyrch ac mewn cyflwr da. Cynhelir gwiriadau diogelwch dyddiol gan y staff i nodi a gwaredu ag unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cwblhau cofrestr o'r plant sy'n mynychu ac yn cofnodi amseroedd cyrraedd a gadael y plant. Maent yn sicrhau bod cymarebau staff yn cael eu cynnal bob amser. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer pob rhan, sy'n cynnwys diogelwch tân, COVID-19, a holl weithgareddau'r plant. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd gan yr unigolyn â gofal ac mae'r staff yn cynnal gwiriadau dyddiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cadw cofnodion o'r holl ymwelwyr â'r lleoliad. Yn ogystal, mae mynediad i'r lleoliad trwy brif fynedfa'r ysgol a chaiff yr holl ymwelwyr eu monitro a'u mewngofnodi'n electronig. Mae'r ysgol yn gyfrifol am yr holl waith cynnal a chadw ac yn sicrhau bod y gwaith gwasanaethu cyfleustodau yn gyfredol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'n groesawgar ac yn darparu ardaloedd golau i blant eu harchwilio. Mae ystod eang o adnoddau o ansawdd da, ynghyd ag amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r plant yn gallu cyrchu teganau'n hawdd sy'n hyrwyddo eu hannibyniaeth.  Mae digon o ddodrefn, teganau ac adnoddau ar gael i faint y grŵp o blant. Mae'r adnoddau'n briodol ar gyfer y cam datblygu'r plant ac yn ysgogi chwilfrydedd a darganfod. Mae'r amgylchedd yn yr ystafell ganolog fawr wedi'i gynllunio'n dda ac mae'r plant yn symud o gwmpas yn hawdd. Mae swyddfa fechan y tu ôl i sgrîn sy'n galluogi'r unigolyn â gofal i oruchwylio'r gweithgareddau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y plant yn defnyddio'r ardal yn yr awyr agored yn rheolaidd. Mae’r ardal hon yn darparu ystod dda o gyfleoedd i blant chwarae’n egnïol ac yn ymestyn eu dysgu a’u datblygiad. Mae cynllun yr ardal hon yn rhoi rhyddid i’r plant archwilio ac yn cynnig heriau sy'n briodol o ran oedran. Mae'r plant yn edrych ymlaen at chwarae yn y gegin fwd, plannu a chloddio, chwarae gyda byrddau sialc a chwarae rôl yn y gegin awyr agored. Mae'r holl adnoddau mewn cyflwr da, wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ac yn cydymffurfio â'r safonau diogelwch perthnasol. Mae'r ardal hon wedi'i gorchuddio â chanopi mawr sy'n annog y plant i chwarae yn yr awyr agored pan fydd y tywydd yn wlyb.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn llawn cymhelliant ac yn brofiadol ac mae ganddynt y sgiliau i reoli'r gwasanaeth yn effeithiol. Mae’r datganiad o ddiben yn rhoi darlun cywir o sut mae’r gwasanaeth yn rhedeg ac yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Mae hwn yn cael ei ddiweddaru pan fydd unrhyw newidiadau yn digwydd. Mae'r unigolyn cyfrifol sydd â gofal cyffredinol am y lleoliad yn cadw mewn cysylltiad agos ac yn rhoi cymorth rheolaidd i'r unigolyn â gofal a'i thîm.

Mae’r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn gweithio'n galed i hyrwyddo arferion diogel. Maent yn gosod nodau clir i ddiwallu anghenion y plant ac yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau ysgrifenedig i arwain eu gweithredoedd. Mae'r unigolyn cyfrifol wrthi’n adolygu'r dogfennau hyn, gan fod angen diweddaru rhai. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cefnogi'r staff yn weithredol i ddarparu gofal o ansawdd i'r plant a'u teuluoedd. Mae'r tîm o staff yn frwdfrydig ac yn uchelgeisiol, ac yn mwynhau eu gwaith. Mae'r unigolion o fewn y tîm yn cefnogi ei gilydd ac yn cydweithio'n dda. Mae gwiriadau priodol yn cael eu cynnal i sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant cyn iddynt ddechrau eu swyddi. Mae digonedd o staff cymwysedig a phrofiadol i sicrhau bod y plant yn derbyn gofal da bob amser.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod gan yr holl staff y sgiliau a'r wybodaeth i ddarparu gwasanaeth diogel o ansawdd uchel i blant. Maent yn darparu cyfleoedd hyfforddi rheolaidd a goruchwyliaeth un-i-un i ymarferwyr. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl staff yn cael cyfleoedd i fyfyrio ar eu harferion ac i ymestyn eu dysgu proffesiynol. Anogir yr holl staff i leisio unrhyw bryderon a rhannu gwybodaeth mewn cyfarfodydd staff, sy'n hyrwyddo rhannu arferion da.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn awyddus i wella ansawdd y gwasanaeth yn barhaus ac mae cynllun gweithredu yn amlinellu'r gwaith sydd wedi’i gynllunio. Mae hyn yn rhan o'r adroddiad ansawdd gofal blynyddol. Maent yn barod i dderbyn adborth a byddant yn gweithredu ar faterion a ddaw i'w sylw yn ddi-oed. Mae gweithdrefn gwyno ar waith, er na dderbyniwyd unrhyw gwynion. Mae partneriaethau gyda rhieni yn dda a dywedodd rhieni wrthym eu bod yn hapus ag ansawdd y gwasanaeth a'u bod yn hyderus i drafod unrhyw faterion gyda'r staff. Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth dda i'r gwasanaeth ac mae'r staff yn gweithio mewn partneriaeth ag unigolion yn ôl yr angen.
Mae’r gwasanaeth yn darparu Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg ac mae’r holl staff yn siarad Cymraeg yn rhugl.

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. Ymestyn y gwaith o fonitro damweiniau a digwyddiadau i nodi camau gweithredu posibl ar gyfer gwella

A2. Cynnal ymarferion tân ar wahân i'r rhai a gynhelir gan yr ysgol

A3. Adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau i gynnwys dyddiad cwblhau.